COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 14 MAI 2025 16:00

Presennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | Clatworthy |
| HJ David | P Davies | S Easterbrook | M J Evans |
| N Farr | J Gebbie | GH Haines | M L Hughes |
| D M Hughes | M R John | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick | I M Spiller |
| JH Tildesley MBE | A Ulberini-Williams | G Walter | A Wathan |
| AJ Williams | I Williams | MJ Williams | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RJ Collins | C Davies | P Ford |
| RM Granville | S J Griffiths | D T Harrison | RM James |
| W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | T Thomas |
| HM Williams | R Williams | E D Winstanley | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C L C Davies, W R Goode, P W Jenkins a/ac T Wood

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

Datganiadau o Ddiddordeb

Datgan Buddiannau
Datganodd y Cynghorydd Steven Bletsoe fuddiant personol mewn Penodi Cadeiryddion i Bwyllgorau

## 137. I dderbyn cyhoeddiadau gan y Maer, y Cynghorydd Heather Griffiths

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Rhoddodd y Maer araith wrth adael ei swydd yn diolch i bawb a'i chefnogodd gydol ei thymor. Rhoddodd yr Arweinwyr grŵp eu diolch i'r Maer gan ei chanmol am y rhan ragweithiol a chwaraeodd yn swydd y maer yn 2024-2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

## 138. Ethol y Maer am y cyfnod hyd at fis Mai 2026 yn unol ag Adran 23(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd Huw David yn cael ei ethol yn Faer am y flwyddyn i ddod, hyd at fis Mai 2026 |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

## 139. Ethol y Dirprwy Faer am y cyfnod hyd at fis Mai 2026 yn unol ag Adran 24(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd dau enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef y Cynghorydd Heidi Bennett a'r Cynghorydd Norah Clarke<br><br>Cynhaliwyd pleidlais gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:<br><br>Y Cyng. Heidi Bennett - 28<br>Y Cynghorydd Norah Clarke – 17<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd Heidi Bennett yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn i ddod, hyd at fis Mai 2026 |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

## 140. Ethol Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd dau enwebiad ar gyfer Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn i ddod 2025-26, sef y Cynghorydd JC Spanswick a'r Cynghorydd R Penhale-Thomas. Cynhaliwyd pleidlais felly i ethol yr Arweinydd, ac roedd y canlyniad oedd fel a ganlyn:-<br><br>Y Cynghorydd John Spanswick - 28<br><br>Y Cynghorydd Ross Penhale Thomas – 17<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd John Spanswick yn cael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn i ddod, hyd at fis Mai 2026 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

**141. Yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor o'r Aelodau sydd i'w penodi i'r Cabinet gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd a phortffolios Aelodau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dwedodd yr Arweinydd y byddai ei Gabinet yn cynnwys yr Aelodau canlynol i gymryd y portffolios fel y nodwyd:-<br><br>Y Cynghorydd J Gebbie - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles<br><br>Y Cynghorydd Paul Davies - Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd<br><br>Y Cynghorydd Martyn Jones - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gwasanaethau Ieuenctid<br><br>Y Cynghorydd N Farr - Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai<br><br>Y Cynghorydd Hywel Williams - Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad<br><br>Y Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd E Caparros (rôl ar y cyd) – Aelod Cabinet Adnoddau |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

**142. Penodiadau i Bwyllgorau'r Cyngor a Chyrff Eraill y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | **Panel Apeliadau**<br>Cafwyd dau enwebiad ar gyfer Cadeirydd y Panel Apeliadau, yn ogystal â dau enwebiad ar gyfer Is-gadeirydd |

| | |
|---|---|
| | Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:<br><br>Cadeirydd<br>Y Cynghorydd Heidi Bennett - 26<br>Y Cynghorydd Alan Wathan – 20<br><br>Is-Gadeirydd<br>Y Cynghorydd William Kendall - 25<br>Y Cynghorydd Alan Wathan – 20<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd Heidi Bennett<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd William Kendall<br><br>**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd T Thomas<br><br>**Rheoli Datblygu**<br><br>Cafwyd dau enwebiad ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn ogystal â dau enwebiad ar gyfer Is-gadeirydd<br><br>Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:<br><br>Cadeirydd<br>Y Cynghorydd Richard Granville – 29<br>Y Cynghorydd Della Hughes – 17<br><br>Is-Gadeirydd<br>Y Cynghorydd Simon Griffiths - 27<br>Y Cynghorydd Della Hughes – 19 |

| | |
|---|---|
| | • Cadeirydd: Y Cynghorydd Richard Granville<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Simon Griffiths<br><br>**Pwyllgor Trwyddedu a'r Ddeddf Drwyddedu**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd Maxine Lewis<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Richard Williams<br><br>**Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>• Cadeirydd  Yr Arweinydd<br>• Is-Gadeirydd: Y Dirprwy Arweinydd<br><br>**Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd Alex Alberini Williams<br><br>**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd Freya Bletsoe<br><br>**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd JP Blundell<br><br>**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid**<br><br>• Cadeirydd: Y Cynghorydd Heather Griffiths |
| Dyddiad Gwneud y | 14 Mai 2025 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

## 143. Rhaglen Arfaethedig Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd cyngor a phwyllgorau ar gyfer Mai 2025 i Ebrill 2026. Dwedodd fod cyfarfodydd y Gyllideb ym mis Chwefror 2026 yn destun newid ac roedd hyn yn dibynnu ar amserlen gyhoeddi setliad Llywodraeth Cymru. Roedd manylion pellach am gyfarfodydd eraill ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br><br>Gwnaed cynnig i symud cyfarfod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer 18 Awst 2025 oherwydd gwyliau ac argaeledd yr Aelodau. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol a byddai dyddiad newydd yn cael ei gynnig maes o law.<br><br>Cynigiodd y Cynghorydd Martin Williams welliant er mwyn cynnwys cyfarfod llawn o'r Cyngor fis Rhagfyr gan ei fod wedi credu y byddai busnes perthnasol i'w drafod tan y Nadolig. Dwedodd y Swyddog Monitro nad oedd cyfarfod y Cyngor wedi cael ei gynnal ym mis Rhagfyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf gydag ond ychydig o fusnes neu ddim i'w drafod, a chanfuwyd bod cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr yn foddhaol i drafod busnes. Dwedodd y gallai unrhyw fusnes brys a oedd angen ei gynnal yn dal i allu cael ei gynnal fis Rhagfyr, ond mater i'r Aelodau os oeddent yn dymuno cynnal cyfarfod arferol. Cynhaliwyd pleidlais yn dilyn y cynnig hwn ac fe'i gwrthodwyd yn y pen draw. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

## 144. Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol a Phwyllgorau Eraill

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer penodi Aelodau i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru – Cydbwyllgor Craffu a Throsolwg, Panel Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru a'r Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, fel y nodir yn yr adroddiad yn Atodiad 1, ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer y flwyddyn i ddod, hyd at fis Mai 2026. Roedd y penodiadau fel a ganlyn:<br><br>**Y Cynghorydd Simon Griffiths** a enwebwyd yn Gadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru<br><br>**Y Cynghorydd Jon Paul Blundell** a enwbwyd yn Is-gadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru<br><br>**Y Cynghorydd Simon Griffiths** a enwebwyd fel cynrychiolydd Is-bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru<br><br>**Y Cynghorydd Simon Griffiths** a enwebwyd fel cynrychiolydd Is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru<br><br>**Y Cynghorydd Joanna Hopkins** a enwebwyd fel cynrychiolydd ar gyfer Panel Heddlu a Throseddu De Cymru<br><br>**Y Cynghorydd Richard Granville** a enwebyd fel cynrychiolydd grŵp cynllunio strategol De-ddwyrain Cymru |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

## 145. Urddo Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025/2026

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Wedi i'r Cyngor gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd Huw David fel Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2025/2026, gwahoddwyd y Cynghorydd David gan y Maer a oedd yn gadael, i dderbyn Swydd y Maer yn ffurfiol.<br><br>Derbyniodd y Cynghorydd Huw David swydd y Maer ar lafar ac adroddodd y llw canlynol:– "I Huw David do |

| | |
|---|---|
| | swear that I will be faithful and bear true allegiance to His Majesty the King, Charles the Third."<br><br>Estynnodd y Cynghorydd Heather Griffiths ei llongyfarchiadau i'r Maer newydd. Cyhoeddodd y Cynghorydd Griffiths hefyd y byddai'r Maer Ieuenctid presennol, Ellie O'Connell a'r Dirprwy Faer Ieuenctid, Daisy Davies yn aros yn eu priod swyddi am flwyddyn arall. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

**146. I urddo Consort y Maer**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyhoeddodd y Cynghorydd Huw David na fyddai ganddo gydwedd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

**147. Urddo Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2025/2026**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Derbyniodd y Cynghorydd Heidi Bennett y swydd yn ffurfiol a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth. Adleisiodd eiriau cynnes y Cynghorydd Huw David wrth gydnabod cyfraniad y Maer a oedd yn gadael. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

**148. Urddo Consort y Dirprwy Faer**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyhoeddodd y Cynghorydd Heidi Bennett mai ei gŵr, David Bennett fyddai ei chonsort. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Mai 2025 |

| | |
|---|---|

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17:40